Arts
& Business
Cymru

# Gwobrau Celfyddydau & Busnes Cymru 2025

**Noddir gan Hern & Crabtree**

***Dathlu 30 Mlynedd o Lwyddiant Partneriaeth***

## RHEOLAU MYNEDIAD

### Cyffredinol

- Ni chodir ffi enwebu.
- Ni fydd ffurflenni a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn gymwys i'w hystyried.
- Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o'r bartneriaeth fod wedi digwydd rhwng **01.01.24 – 31.01.25.**
- Gellir defnyddio gwybodaeth a roddir (ac eithrio manylion ariannol) gan C&B Cymru at ddibenion cyhoeddusrwydd oni nodwch yn wahanal fel arall.
- Er mwyn asesu'r enwebiadau, bydd C&B Cymru yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth am yr holl unigolion a sefydliadau dan sylw. Ewch i www.cab.cymru i gael y Polisi Preifatrwydd llawn.
- Bydd penderfyniadau'r beirniaid yn derfynol ac mae C&B Cymru yn cadw'r hawl i wrthod rhoi unrhyw wobr.
- Mae'r manylion i gyd yn gywir adeg mynd i'r wasg. Mae C&B Cymru yn cadw'r hawl i amrywio'r manylion hyn fel y gwêl orau.

**Rhaid cyflwyno cofnod gweledol o'r bartneriaeth (e.e. ffotograffau, ffilm ac ati) gyda'r holl enwebiadau.**

**Rhaid cyflwyno enwebiadau wedi'u cwblhau erbyn dydd Gwener 7 Mawrth 2025 fan bellaf.**

**Bydd 30ain Gwobrau C&B Cymru yn cael eu cynnal yn ICC Cymru ddydd Iau 19 Mehefin 2025.**

### Categorïau Busnes

- Mae Gwobrau C&B Cymru yn agored i bob busnes sy'n cefnogi sefydliadau celfyddydol a / neu artistiaid yng Nghymru a phob busnes sy'n cefnogi digwyddiadau celfyddydol Cymreig yn rhyngwladol.
- Gall y bartneriaeth fod yn un ariannol, mewn nwyddau, neu gymysgedd o'r ddau, cyhyd â bod cyfanswm y gwerth yn £500 o leiaf.
- Gall y partner busnes neu'r partner celfyddydol lenwi'r ffurflen enwebu, ond mae'n rhaid i'r ddau ei lofnodi fel cofnod cywir. Wrth wneud cais dros yr e-bost, ticiwch y blwch perthnasol ar ddiwedd y ffurflen.
- Gellir enwebu'r un prosiect mewn mwy nag un categori drwy dicio'r blychau priodol.
- Gall y partner busnes neu'r partner celfyddydol gyflwyno mwy nag un enwebiad o dan unrhyw gategori.
- Pan fo gan sefydliad celfyddydol / artist fwy nag un partner, gall pob un fod yn gymwys, ond mae'n rhaid cyflwyno ffurflen ar wahân am bob busnes a enwebir.

Arts & Business Cymru

## Ymgynghorydd y Flwyddyn

- Mae'r categori hwn yn agored yn unig i unigolion o fusnes sydd wedi cofrestru â Banc Bwrdd, Amrywiaeth mewn Llywodraethu, Banc Mentora, Banc Sgiliau neu Gweithwyr Proffesiynol Ifanc ar Fyrddau C&B Cymru.

- Dylai'r ffurflen enwebu gael ei chwblhau gan y sefydliad celfyddydol a'r ymgynghorydd busnes ar y cyd. Ticiwch y blwch perthnasol ar ddiwedd y ffurflen i gadarnhau bod y ddau bartner wedi cymeradwyo'r wybodaeth a gyflwynwyd.
- Pan fydd sefydliad celfyddydol wedi gweithio gyda mwy nag un cynghorydd, gall pob un fod yn gymwys, ond rhaid cyflwyno ffurflen ar wahân ar gyfer pob un a enwebir.

## Gwobr Robert Maskrey am Ddyngarwch Celfyddydol

- Yn wahanol i gategorïau eraill Gwobrau C&B Cymru eraill, gall sefydliadau celfyddydol gyflwyno enwebiadau ar gyfer y Wobr hon heb yn wybod i'r unigolyn(unigolion) dan sylw ymlaen llaw. Os bydd yr enwebiad yn llwyddiannus, bydd C&B Cymru yn cysylltu â'r sefydliad celfyddydol partner i drafod y Wobr ymhellach.
- Dim ond un unigolyn fydd yn cael eu cydnabod yn y categori hwn. Ni chyhoeddir rhestr fer.
- Os bydd mwy nag un partner celfyddydol yn dymuno enwebu'r un unigolyn, rhaid i bob un gyflwyno ffurflen ar wahân.